

Rheoli Perygl Llifogydd yn Llanddulas a Bae Cinmel

Y Sefyllfa Bresennol – Unwaith mewn

100 mlynedd

Heddiw (2018)



1872 o eiddo mewn perygl

Newid Hinsawdd (2118)



4958 o eiddo mewn perygl. Yr A458 a'r rheilffordd mewn perygl

Dewis a Ffafir – Unwaith mewn 100

mlynedd

Heddiw (2018)



27 eiddo mewn perygl. Dyfnder ac ehangder y llifogydd wedi lleihau'n sylweddol

Newid Hinsawdd (2118)



595 eiddo mewn perygl. Dyfnder ac ehangder y llifogydd wedi lleihau

Mae'r amddiffynfeydd llifogydd presennol ar hyd y morlin 11km yma yn amrywio o goed a grwynau i wrthgloddiau, morgloddiau a llifddorau. Yn sgil effeithiau posibl newid hinsawdd, yn y dyfodol (2118) bydd nifer yr eiddo mewn perygl yn cynyddu'n sylweddol o 1872 (2018) i 4958 ar gyfer digwyddiad bob can mlynedd. Mae hyn yn ystyried effaith newid hinsawdd ar lefel y môr a chyfraddau tonnau'n trechu amddiffynfeydd.

Mae'r dewis a ffafir yn cynnwys codi brig y morglawdd presennol, gwrthgloddiau gwell ac ail-lenwi traeth Bae Cinmel yn rheolaidd. Cynigir codi morglawdd atal ym Mhensarn a gwrthglawdd tua'r môr o'r wal bresennol ym Melgrano i'r dwyrain. Cynigir morglawdd atal hefyd ar draeth Llanddulas Beach, a chodi brig y gwrthglawdd tua'r gorllewin. Bydd y dewis a ffafir yn arwain at welliannau sylweddol i berygl llifogydd ym Mae Cinmel. Bydd nifer yr eiddo mewn perygl o lifogydd dan amodau newid hinsawdd yn lleihau o 4958 i 595, gan arwain at leihau'r perygl llifogydd yn yr ardal.